# Y Bil Cyfryngau: Map Ofcom tuag at reoleiddio

Cyhoeddwyd 26 Chwefror 2024

# Cynnwys

## Adran


Cyflwyniad....3

Newidiadau a gyflwynwyd yn y Bil....4

Rhoi'r Bil Cyfryngau ar waith....7

Manylion y Cynllun Gweithredu....9

# 1. Cyflwyniad

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

1.1 Mae tirwedd darlledu a'r cyfryngau yn y DU yn un o'r rhai mwyaf amrywiol, creadigol a bywiog yn y byd. Mae cynulleidfaoedd ledled y DU yn mwynhau amrywiaeth anhygoel o wasanaethau, rhaglenni a newyddiaduraeth sy'n cael eu creu drwy gymysgedd o arloesi a buddsoddiad cyhoeddus a phreifat, ac sy'n cael eu meithrin gan fframwaith rheoleiddio cadarn a sefydlog. Oherwydd yr amodau hyn, mae pob un ohonom yn parhau i allu cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant dibynadwy sy'n cyfoethogi ein bywydau diwylliannol.

1.2 Fodd bynnag, mae'r amodau hyn yn newid. Dros y degawd diwethaf, mae'r ffyrdd sydd gennym o wylio a gwrando ar gynnwys wedi newid. Felly, mae'r Bil Cyfryngau yn cael ei basio ar adeg bwysig.

1.3 Fel y diweddariad mawr cyntaf i ddeddfwriaeth y DU yn y maes hwn ers 20 mlynedd, mae'r Bil yn diwygio'r gofynion ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau sain, yn gosod rhwymedigaethau newydd ar lwyfannau cysylltiedig ac yn cryfhau'r broses o reoleiddio gwasanaethau Fideo ar-alw (VoD). Gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gennym yn ein hadolygiad mawr diwethaf o gyfryngau'r sector cyhoeddus, *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, mae'r Bil yn darparu adnoddau newydd i ni i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr y DU yn gallu parhau i gael gafael ar raglenni a newyddiaduraeth o ansawdd uchel.

1.4 Mae'r Bil hefyd yn gwneud newidiadau i rai o gyfrifoldebau presennol Ofcom, fel sut rydym yn rheoleiddio radio masnachol a sut rydym yn sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni yn erbyn eu cwotâu. Mae hefyd yn cyflwyno dyletswyddau newydd, fel gofyniad i ni sefydlu cyfundrefnau newydd ar gyfer amlygrwydd teledu ar-lein a chynorthwywyr llais, yn ogystal â chod safonau newydd ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw.

1.5 Mae Ofcom yn croesawu'r newidiadau a wneir gan y Bil Cyfryngau. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'r rheolau newydd hyn cyn gynted â phosibl mewn ffordd sy'n deg, yn gymesur ac yn effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn esbonio ein cynllun lefel uchel ar gyfer gwneud hynny.

1.6 Dylai rhanddeiliaid nodi'n ofalus bod y dull a ddisgrifir yn y tudalennau canlynol yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o'n dyletswyddau newydd; mae'n bosibl y bydd y rhain yn newid wrth i waith craffu Seneddol ar y Bil barhau. Yn yr un modd, dylid ystyried bod yr amserlen ar gyfer prosesau Seneddol (gan gynnwys amserlennu is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i ddod â rhai rhannau o'r Bil i rym) yn ogystal ag ar gyfer ymgynghoriadau ac adroddiadau Ofcom - yr ydym wedi'u cynnwys isod i ddangos dilyniant posibl ein gwaith a helpu partïon â diddordeb i gynllunio ymgysylltiad â ni - yn ddangosol ac yn agored i newid. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid unwaith y bydd y Bil yn cwblhau ei daith drwy Senedd y DU.

# 2. Newidiadau a gyflwynwyd gan y Bil

## Mae'r Bil yn darparu diwygiadau y mae mawr eu hangen i reoleiddio cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU

2.1 Mae'r degawd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid radical yn y ffordd rydym yn cael gafael ar newyddion, gwybodaeth ac adloniant. Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r lefel ehangach o ddewis sy'n cael ei galluogi gan newid technolegol ac sy'n cael ei chroesawu gan gynulleidfaoedd wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando llinol. Yn 2022, roedd pobl yn y DU yn gwylio 30% yn llai o deledu wedi'i ddarlledu ar gyfartaledd o gymharu â 2014. Ymysg cynulleidfaoedd iau, mae lefelau gwylio wedi gostwng yn gyflymach o lawer, gan ostwng 72% dros yr un cyfnod i bobl 16-24 oed. Mae cyfran y boblogaeth sy'n gwrando ar radio byw (AM/FM) wedi gostwng o ychydig o dan hanner (49%) i lai na thraean (32%) yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

2.2 Heddiw, dal i dyfu y mae'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd. Fe wnaeth Netflix ryddhau ei gyfres wreiddiol gyntaf, *House of Cards*, yn 2013. Erbyn 2022, roedd yn gwario dros £13bn ar raglenni gwreiddiol a thrwyddedig bob blwyddyn, gan gynnwys tua £1.2bn ar gynyrchiadau gwreiddiol o'r DU. Mae cynulleidfaoedd yn ymateb i'r dewis cynyddol hwn drwy ddefnyddio gwasanaethau gwylio a gwrando ar-alw mewn niferoedd cynyddol. Yn ôl Barb, yn 2023 roedd dwy ran o dair (67%) o aelwydydd yn tanysgrifio i un gwasanaeth fideo ar-alw o leiaf. Dywedodd IPA TouchPoints fod tua hanner (47%) yr oedolion yn gwrando ar gerddoriaeth wedi'i ffrydio bob wythnos yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.

2.3 Ar ôl sawl degawd lle'r oedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthiad llinol, mae darlledwyr wedi bod yn addasu i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU wedi datblygu chwaraewyr ar-alw sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw a thrwyddedig, y gellir cael gafael arnynt ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau gan gynnwys ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, gliniaduron a setiau teledu clyfar. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau radio wedi dod yn fwy amrywiol ac yn fwy hygyrch ar ystod ehangach o ddyfeisiau, gan gynnwys cynorthwywyr llais.

2.4 Fodd bynnag, er bod arferion cynulleidfaoedd wedi newid, nid yw'r fframwaith deddfwriaethol y mae'r darlledwyr hyn yn gweithredu ynddo wedi newid. Mae'r rheolau presennol i raddau helaeth yn adlewyrchu patrymau technoleg a defnydd y 1990au a dechrau'r 2000au. Mae chwaraewyr ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gael eu heithrio o'r gyfundrefn reoleiddio i raddau helaeth. Yn yr un modd, er bod llawer o orsafoedd radio yn y DU yn dal i fod yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddio sy'n dyddio'n ôl i 1990 mewn rhai achosion, anaml y sonnir am y gwasanaethau ffrydio a phodledu sydd heb eu rheoleiddio i raddau helaeth, a'r gwasanaethau sy'n cael eu hysgogi gan lais y maent yn dibynnu fwyfwy arnynt.

2.5 Yn ein hadolygiad yn 2021, *[Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr](#)*, sy'n trafod darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roeddem wedi gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU ar sut i foderneiddio fframwaith rheoleiddio'r cyfryngau clyweledol. I ymateb i'r argymhellion hynny, a chasgliadau Llywodraeth y DU i'w [hymgynghoriad yn 2017 ar radio masnachol](#) ac [Adolygiad Radio a Sain Digidol 2021 a gomisiynwyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon](#), cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn *[Up Next](#)* yn 2022, gan nodi ei bwriad i ddeddfu er mwyn cefnogi system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y DU. Mae'r Bil Cyfryngau dilynol yn gwneud newidiadau pwysig sydd wedi'u dylunio i gefnogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau radio yn y DU i barhau i ddarparu cynnwys a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut byddwn yn gweithio i roi'r newidiadau hyn ar waith.

2.6 Ynghyd â'r gwaith hwn, bydd Ofcom hefyd yn dechrau ein hadolygiad nesaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus cyn bo hir. Yn ogystal ag asesu sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu dibenion dros y pum mlynedd diwethaf, byddwn unwaith eto'n edrych ymlaen at yr heriau sydd i ddod wrth i'r newid cyflym barhau. Byddwn yn ystyried sut mae'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn elwa o newyddion cywir a dibynadwy wedi'i ariannu'n dda mewn byd sy'n cael ei ddominyddu fwyfwy gan gyfryngau cymdeithasol, i gynnal system darlledu gwasanaeth cyhoeddus amrywiol ac i gefnogi sector cynhyrchu ffyniannus ymhell i'r dyfodol.

## Cwmpas y Bil Cyfryngau

2.7 Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n diwygio fframwaith rheoleiddio a dyletswyddau Ofcom:

- **Mae Rhan 1 yn diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Mae'r adran hon o'r Bil yn diwygio fframwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar amserlennu llinol sy'n gynyddol anghyson â chynulleidfaoedd. Mae'n diwygio ac yn symleiddio cylchoedd gwaith a gofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r nod o roi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gyflawni eu rhwymedigaethau mewn ffordd sy'n gwasanaethu buddiannau cynulleidfaoedd. Yn ychwanegol, wrth i fwy a mwy o gwmnïau gystadlu am yr hawliau i ddangos digwyddiadau chwaraeon, mae Rhan 1 y Bil hefyd yn gwneud newidiadau i'r fframwaith digwyddiadau rhestredig i ddiogelu gallu pobl ledled y DU i gael mynediad at ddigwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol.
- **Mae Rhan 2 yn cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn amlwg, yn hygyrch ac ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau teledu cysylltiedig, fel setiau teledu clyfar**. Mae'r adran hon, sy'n adeiladu ar [argymhellion](#) a wnaed gan Ofcom yn 2019, yn ategu'r fframwaith presennol – sy'n gofyn am amlygrwydd sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus llinol yn unig ar amserlenni rhaglenni electronig sy'n cael eu darlledu (ee amserlen rhaglenni electronig Sky) – gydag un newydd yn gofyn am ystod ehangach o lwyfannau i gludo ac arddangos y chwaraewyr ar-alw y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dosbarthu rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus arnynt. Mae'n gofyn i Ofcom

sefydlu Codau, canllawiau a phrosesau datrys anghydfodau newydd sydd wedi'u dylunio i sicrhau system deg a chynaliadwy sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd.

- **Mae Rhan 3 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Channel 4 yn ei fodel gweithredu ac mae'n diweddaru fframwaith deddfwriaethol S4C.** Mae'r adran hon o'r Bil yn rhoi'r gallu i Channel 4 gynhyrchu a gwneud arian o'i rhaglenni ei hun – gan ddileu'r model darlledu/cyhoeddi sydd wedi bod ar waith ers dros 40 mlynedd. Mae hefyd yn cyflwyno dyletswydd newydd ar Fwrdd Corfforaeth Channel 4 (C4C) i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor C4C. Bydd y newidiadau sy'n effeithio ar S4C, nad ydynt yn rhai i Ofcom eu gweithredu, yn ehangu ei chylch gwaith i gynnwys gwasanaethau digidol a gwasanaethau ar-lein, yn caniatáu i S4C gynnig ei chynnwys ar ystod o lwyfannau ac yn dileu'r cyfyngiadau daearyddol sydd wedi cyfyngu ar ei gallu i ddarparu gwasanaethau y tu allan i Gymru. Mae hefyd yn darparu sylfaen statudol i'r bwrdd unedol newydd a'r trefniadau archwilio a argymhellwyd gan yr adolygiad annibynnol o S4C.
- **Mae Rhan 4 yn gosod safonau a gofynion hygyrchedd newydd ar y gwasanaethau fideo ar-alw mwyaf.** Er bod miliynau o wylwyr yn y DU yn gwylio gwasanaethau fideo ar-alw erbyn hyn, nid ydynt yn rhwym wrth ofynion Cod Darlledu Ofcom, sy'n gosod safonau ar gyfer cynnwys. Mae'r safonau hyn yn cynnwys didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion. Mae'r rhan hon o'r Bil yn golygu y bydd y gwasanaethau fideo ar-alw mwyaf yn ddarostyngedig i safonau golygyddol tebyg i'r rheini sy'n diogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Mae hefyd yn cyflwyno gofynion hygyrchedd ar gyfer y darparwyr mwyaf, i sicrhau bod mwy o bobl ag anableddau yn gallu defnyddio a mwynhau'r gwasanaethau hyn, gan adlewyrchu'r argymhellion a wnaethom ddiwethaf yn 2021.
- **Mae Rhan 5 yn diweddaru'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer radio masnachol.** Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau radio masnachol yn y DU yn cael eu rheoleiddio o dan fframwaith trwyddedu sydd â'r rhan fwyaf ohoni dros 30 oed. Mae'r adran hon yn adlewyrchu casgliadau ymgynghoriad 2017 Llywodraeth y DU ar ddadreoleiddio radio masnachol i gael gwared ar y beichiau rheoleiddio sydd wedi dyddio ar wasanaethau radio, gan ddiogelu a chryfhau'r ddarpariaeth newyddion lleol.
- **Mae Rhan 6 yn cyflwyno darpariaethau i ddiogelu argaeledd radio'r DU ar ddyfeisiau sain sydd wedi'u cysylltu.** Gan adlewyrchu argymhellion Adolygiad Sain a Radio Digidol 2021 y Llywodraeth, bydd yr adran hon yn sicrhau bod gorsafoedd radio'r DU yn cael eu darparu'n ddibynadwy i ymateb i orchmynion gwrandawyr i lwyfannau ar-lein sy'n cael eu hysgogi gan lais ac sydd ar gael drwy ddyfeisiau fel seinyddion clyfar. Bydd hefyd yn sicrhau na fydd y llwyfannau hyn yn codi tâl ar orsafoedd i sicrhau bod eu gwasanaethau byw ar gael i wrandawyr.

# 3. Rhoi'r Bil Cyfryngau ar waith

## Ein dull rheoleiddio

3.1 Nod y Bil Cyfryngau yw sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau teledu a radio o ansawdd uchel yn cael ei gynnig yn fyw ac ar-alw i gynulleidfaoedd y DU, a bod y cynulleidfaoedd hyn yn cael eu diogelu'n briodol rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus. Wrth weithredu'r Bil, byddwn yn ymgynghori'n agored ac yn defnyddio'r amrywiaeth o dystiolaeth ac ymchwil sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ledled y DU. Byddem yn cynghori'r holl randdeiliad i roi buddiannau cynulleidfaoedd wrth galon eu hymgysylltiad â ni.

3.2 Mewn rhai rhannau o'r Bil, bydd gan ddarparwyr sy'n cael eu rheoleiddio fwy o hyblygrwydd nag o'r blaen o ran sut maent yn cyflawni rhwymedigaethau. Er enghraifft, bydd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fwy o ryddid i benderfynu ar y ffordd orau o wasanaethu cynulleidfaoedd ar draws llwyfannau o gymharu â'r gorffennol. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn glir ynghylch pwysigrwydd diogelu'r ddarpariaeth ar wasanaethau llinol o newyddion a materion cyfoes dibynadwy ac amrywiaeth eang o raglenni. Wrth fwrw ymlaen â'r Bil, byddwn yn cadw mewn cof yr angen i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod ar gael i bawb, eu bod yn berthnasol ac yn atebol i'r cyhoedd.

3.3 Yn ychwanegol, mae'r Bil hefyd yn ceisio cefnogi busnesau cyfryngau yn y DU wrth iddynt geisio trawsnewid eu gwasanaethau i addasu i newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Mae cwmnïau y mae'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio arnynt, gan gynnwys nifer ohonynt nad oeddent wedi'u rheoleiddio gennym o'r blaen, yn wynebu ystod eang o gyfleoedd a heriau i ymateb i ofynion y Bil. Drwy ein hymgysylltiad â'r diwydiant, byddwn yn ceisio deall effaith cynigion rheoleiddio ar bob parti cyn i ni eu rhoi ar waith.

## Gweithredu'r Bil

3.4 Bydd ein hamserlen weithredu yn cael ei phennu gan amseriad y Bil yn ystod ei daith drwy'r Senedd. Mae ein rhagdybiaethau cynllunio presennol yn seiliedig ar gynnwys y Bil fel yr oedd pan gwblhaodd Tŷ'r Cyffredin ei asesiad cychwynnol ym mis Ionawr 2024 ac mae'n bosibl y byddant yn newid wrth i'r craffu gan y Senedd barhau.

3.5 Mae'r cynllun sy'n dilyn yn tybio y bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol rywbryd ym mis Mai 2024, gyda'i ddarpariaethau'n dod i rym a meysydd o is-ddeddfwriaeth angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU wedi hynny. Byddwn yn ceisio dechrau ymgynghori ar agweddau o'r gyfundrefn newydd cyn gynted â phosibl, gan ymgynghori'n gwbl dryloyw ar ein cynlluniau, rhoi digon o amser i randdeiliaid roi sylwadau, a sicrhau ein bod yn gallu ystyried yr holl adborth a gawn yn ofalus.

3.6 Byddwn yn ceisio cyflymu ein hamserlen o'i chymharu â'r cynigion a nodir yn y papur hwn pan fydd yn bosibl gwneud hynny. O ystyried nifer ac amrywiaeth y camau sydd eu hangen, rydym yn rhagweld y bydd y rhaglen weithredu lawn, gan gynnwys dynodi gwasanaethau perthnasol, datblygu codau newydd a chanllawiau newydd ar gyfer y

diwydiant a newidiadau angenrheidiol i drwyddedau, yn digwydd fesul cam dros y ddwy flynedd nesaf.

## Ffioedd


3.7 Bydd y Bil yn gofyn am wneud newidiadau i strwythurau ffioedd Ofcom ar gyfer nifer o wasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn dod â gwasanaethau newydd o fewn cwmpas ein gwaith rheoleiddio (gan gynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig, gwasanaethau sy'n cael eu hysgogi gan lais a rhai gwasanaethau fideo ar-alw nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU) a bydd angen i ni sefydlu trefniadau cyllido newydd ar gyfer y sefydliadau hyn. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn dod yn nes ymlaen yn y rhaglen weithredu, gydag ymgynghoriadau ar strwythurau ffioedd newydd yn annhebygol o gael eu cyhoeddi cyn ail hanner 2025. Yn amodol ar yr amserlen ddeddfwriaethol a drafodir uchod, ein nod ar hyn o bryd yw cael cyfundrefn ffioedd ddiwygiedig ar waith cyn Ebrill 2026.

# 4. Manylion y cynllun gweithredu

4.1 Mae’r adran hon yn amlinellu ein cynllun presennol i roi pob rhan o’r Bil Cyfryngau ar waith ar ôl iddo ddod i rym. Nid bwriad y ddogfen hon yw cynnig arweiniad i lwyfannau sy’n cael eu rheoleiddio ar unrhyw rwymedigaethau newydd sy’n deillio o’r Bil, nac i fod yn gynhwysfawr o ran sut mae’n ymdrin â phob rhan o’r ddeddfwriaeth newydd. Bydd rhagor o wybodaeth am gydymffurfio yn cael ei darparu yn y codau a’r canllawiau y byddwn yn ymgynghori arnynt fel rhan o’r broses weithredu.

## Rhan 1: Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus

### Amserlen ar gyfer gweithredu




### Crynodeb o’r newidiadau

4.2 Mae’r adran hon o’r Bil yn berthnasol i’r BBC, i S4C ac i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol trwyddedig - ITV, STV, Channel 4 a Channel 5.

4.3 O dan y rhan hon o’r Bil, bydd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda’i gilydd gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus wedi’i ddiweddaru a’i symleiddio, y gellir ei gyflawni ar draws ystod ehangach o wasanaethau clyweledol (gan gynnwys eu chwaraewyr ar-alw a gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan drydydd partïon). Bydd rhaid i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig ac S4C gyhoeddi datganiadau blynyddol o bolisi rhaglenni (a elwir yn SoPPs) sy'n egluro sut maent yn bwriadu cyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol (gan gynnwys pa wasanaethau clyweledol y byddant yn eu defnyddio i wneud hynny, a'r cyfraniad y bydd y gwasanaethau hyn yn ei wneud).

4.4 Bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cwota, gan gynnwys rhwymedigaethau i gomisiynu cynnwys gan gynhyrchwyr annibynnol ac i gynhyrchu cynnwys y tu allan i’r M25. Fodd bynnag, am y tro cyntaf, byddant yn gallu darparu llawer o’r rhain drwy wasanaethau ar-alw, yn ogystal â thrwy eu prif sianeli llinol. Bydd angen diweddaru eu trwyddedau yn unol â hynny.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.5 Ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith, bydd Llywodraeth y DU yn gwneud is-ddeddfwriaeth ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ystyr cynyrchiadau 'annibynnol' a 'gwreiddiol' a darpariaethau ynghylch trin ailddarllediadau mewn perthynas â chwotâu.


4.6 Pan fydd hyn wedi digwydd, rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein methodoleg arfaethedig ar gyfer pennu lefelau cwota priodol gan wneud hynny cyn gynted â phosibl. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynglŷn â pharatoi datganiadau polisi rhaglenni a chanllawiau diwygiedig ar y codau ymarfer y mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu rhoi ar waith wrth gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol. Rydym yn disgwyl gorffen ein hymgynghoriadau a chyhoeddi fersiynau terfynol y dogfennau hyn yn gynnar yn 2025. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gynyrchiadau annibynnol darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, cynyrchiadau gwreiddiol, a chwotâu cynyrchiadau rhanbarthol – yn ogystal â'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau annibynnol ar gyfer S4C. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth debyg ar gyfer cwota cynyrchiadau annibynnol y BBC.

4.7 Bydd unrhyw newidiadau a wnawn i amodau'r drwydded yn ystyried y Bil, yn ogystal â phrosesau rheoleiddio cydredol eraill, gan gynnwys ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae amrywiadau mewn trwyddedau a gofynion newydd ar gyfer datganiadau polisi rhaglenni a chodau ymarfer ar gyfer comisiynu yn debygol o fod ar waith o 2026 ymlaen.

4.8 Maes o law, bydd angen i ni hefyd ymgynghori ar newidiadau i'n datganiad o egwyddorion ar gyfrifo refeniw cymwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wrth i'r Bil ehangu cwmpas y cyfrifiad i gynnwys refeniw o wasanaethau ar-alw dynodedig (a elwir yn wasanaethau rhaglenni rhyngrwyd neu IPS).

# Rhan 1: Digwyddiadau Rhestredig

## Amserlen ar gyfer gweithredu




## Crynodeb o'r newidiadau

4.9 'Digwyddiadau rhestredig' yw digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill o ddiddordeb cenedlaethol a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i helpu i sicrhau bod darllediadau o'r digwyddiadau hyn ar gael yn eang. Mae'r gyfundrefn bresennol

yn dynodi rhai sianeli llinol – y sianeli rhad ac am ddim hynny sy’n cael eu derbyn gan o leiaf 95% o’r boblogaeth – fel “gwasanaethau cymwys” y mae’n rhaid i hawliau'r darlledu fod ar gael iddynt. Rhaid i bob darlledwr wneud cais i Ofcom am gydsyniad pan fydd ganddo’r hawliau unigryw i ddangos digwyddiadau rhestredig.


4.10 Mae’r Bil yn newid y meini prawf hyn fel mai dim ond gwasanaethau sy’n cael eu darparu gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fydd yn gymwys yn y dyfodol. Mae hefyd yn ehangu cwmpas y gyfundrefn i gynnwys amrywiaeth o ddarparwyr newydd, gan gynnwys gwasanaethau ffrydio, y gall fod angen iddynt wneud cais i Ofcom am gydsyniad i ddangos darllediadau os ydynt yn cael yr hawliau darlledu byw unigryw ar gyfer digwyddiad rhestredig.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.11 Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd rhaid i ni ddrafftio rheoliadau i ddiffinio ystyr termau penodol a ddefnyddir yn y gyfundrefn digwyddiadau rhestredig, gan gynnwys ‘darlledu byw digonol’ a ‘darlledu amgen digonol’. Rydym yn disgwyl lansio cais am dystiolaeth yn yr haf i gasglu mewnbwn gan randdeiliaid cyn yr ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn ceisio diwygio ein Cod ar ddigwyddiadau rhestredig i egluro ar ba sail y byddwn yn rhoi neu’n tynnu cydsyniad. Yn gynnar yn 2025, rydym yn bwriadu gofyn am farn rhanddeiliaid ar hyn, gydag ymgynghoriad ar y Cod diwygiedig a’r rheoliadau i ddilyn yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

# Rhan 2: Argaeledd ac Amlygrwydd

## Amserlen ar gyfer gweithredu




## Crynodeb o ddyletswyddau newydd

4.12 Bydd y rhan hon o'r Bil yn cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein ar gael ar lwyfannau teledu poblogaidd ac yn gallu cael eu canfod yn hawdd gan gynulleidfaoedd. Mae'r rheolau'n gymhleth, ond yn fras bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i lwyfannau dynodedig "gludo" chwaraewyr ar-alw sy'n cael eu "cynnig" iddynt gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

4.13 Ar ôl i'r Bil ddod yn gyfraith, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi gorchymyn sy'n nodi'r mathau o ddyfeisiau ac offer technegol a fydd yn dod o dan y gyfundrefn, sy'n debygol o gynnwys setiau teledu clyfar a blychau pen-set sy'n galluogi defnyddwyr i gael gafael ar apiau ar-alw fel BBC iPlayer. Yna, mae'n rhaid i Ofcom roi argymhellion iddi ar ba wasanaethau a llwyfannau a allai fod yn destun rheoleiddio os cânt eu defnyddio gan "nifer sylweddol" o aelodau'r cyhoedd i gael mynediad at gynnwys teledu ar-lein. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu pa lwyfannau fydd wedyn yn cael eu dynodi yn y gyfundrefn.

4.14 Ochr arall y geiniog yw, os yw eu gwasanaethau ar-lein am elwa o'r rheolau newydd, rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wneud cais i ni i ddynodi eu chwaraewyr ar-alw; mae proses ar wahân ar gyfer BBC iPlayer. Bydd angen i ni ystyried y ceisiadau hyn yn erbyn meini prawf a nodir yn y Bil, gan gynnwys a yw'r chwaraewr yn gallu gwneud "cyfraniad sylweddol at gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus."

4.15 Unwaith y byddant wedi'u dynodi, bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau yn rhwym wrth y gofynion "rhaid cynnig" a "rhaid cludo". Bydd Ofcom yn

cyhoeddi canllawiau ar yr amcanion y mae'n rhaid i'w drefniadau masnachol eu cyflawni. Bydd angen i lwyfannau sicrhau hefyd fod chwaraewyr y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â chynnwys sy'n cyfrannu at gyflawni cylchoedd gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, wedi'u lleoli'n amlwg ar eu gwasanaethau a bod y gwasanaethau hyn ar gael i'r rheini sydd ag anableddau (yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw). Rhaid i Ofcom gyhoeddi Codau Ymarfer sy'n rhoi argymhellion ar sut i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Pan na fydd partïon yn gallu dod i gytundebau masnachol, mae gan Ofcom bwerau i ddatrys anghydfodau os bydd amodau penodol yn cael eu bodloni.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.16 Mae'r rheolau argaeledd ac amlygrwydd a gyflwynir yn y Bil yn gymhleth ac yn newydd a byddant yn cyflwyno llwyfannau teledu nad ydym wedi'u rheoleiddio o'r blaen. Rydym yn croesawu ymgysylltu gweithredol â'r holl randdeiliaid dros y misoedd nesaf i'w helpu i ddeall y rheolau newydd a sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn deg ac yn effeithiol.

4.17 Yn ystod y cam gweithredu cyntaf, rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y prosesau ar gyfer dynodi'r gwasanaethau sydd o fewn y cwmpas. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn egluro sut rydym yn bwriadu defnyddio'r meini prawf ar gyfer dynodi chwaraewyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar-lein, ynghyd â'n cynlluniau ar gyfer y broses ymgeisio. Yn amodol ar is-ddeddfwriaeth, rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori eleni ar y fethodoleg y byddwn yn ei defnyddio i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi llwyfannau. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiadau terfynol a'n hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn canol 2025, er y byddwn yn ceisio cyflymu ein gwaith os yw'n bosibl gwneud hynny.

4.18 Yn ystod yr ail gam gweithredu, byddwn yn canolbwyntio ar ddrafftio'r codau a'r canllawiau y byddwn yn eu rhoi ar waith i sicrhau effeithiolrwydd y gyfundrefn newydd. Bydd ymgynghoriadau yn 2025 yn ystyried sut rydym yn argymell bod llwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio yn gallu cydymffurfio â'u dyletswyddau i roi amlygrwydd i gynnwys a chwaraewyr dynodedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â sicrhau hygyrchedd eu gwasanaethau i bobl ag anableddau. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau ar gyfer darparwyr a llwyfannau darlledu gwasanaeth cyhoeddus dynodedig ynghylch sut gall eu trefniadau masnachol fodloni'r tri amcan a nodir yn y ddeddfwriaeth.

4.19 Ar gyfer cam olaf rhoi'r gyfundrefn ar waith, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriadau sy'n amlinellu ein gweithdrefnau gorfodi a datrys anghydfodau. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriadau ar y ddwy set o weithdrefnau tua diwedd 2025.

# Rhan 3: Channel 4

## Crynodeb o'r newidiadau

4.20 Mae'r adran hon o'r Bil yn gwneud newidiadau sy'n effeithio ar ddau o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, sef Channel 4 ac S4C. Dim ond y newidiadau i Channel 4 sy'n fater uniongyrchol i Ofcom.


4.21 Mae'r Bil yn dileu'r cyfyngiad hirsefydlog ar gyfranogiad C4C yn y broses o greu rhaglenni, gan ei alluogi i gynhyrchu cynnwys i'w ddarlledu ar Channel 4 am y tro cyntaf. Ynghyd â hyn, mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau newydd ar C4C i roi gweithdrefnau ar waith sy'n hwyluso cystadleuaeth deg am gomisiynau a pharatoi datganiad blynyddol am ei bolisi comisiynu i'w adolygu gan Ofcom. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod yn bwriadu dod â'r dyletswyddau newydd hyn i rym dim ond pan fydd Channel 4 yn sefylu busnes cynhyrchu.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.22 Ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym, rydym yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau i C4C ar baratoi ei ddatganiad o bolisi comisiynu. Lle bo'n briodol, byddwn yn ceisio alinio â'r gwaith ar ganllawiau sy'n ymwneud â chodau ymarfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol a drafodir ym mharagraff 4.7 uchod. Rydym yn disgwyl cyhoeddi fersiynau terfynol o'r dogfennau hyn yn gynnar yn 2025.

# Rhan 4: Fideo-ar-alw (VoD)

## Amserlen ar gyfer gweithredu




*Nid yw'r rhain yn cyfeirio at y gofynion statudol a nodir ar wyneb y Bil, ond at y gofynion dros dro y bydd gofyn i ni eu gosod (yn dilyn ymgynghori) drwy'r Cod Hygyrchedd.

## Crynodeb o ddyletswyddau newydd

4.23 Mae'r rhan hon o'r Bil yn rhoi pwerau newydd i Ofcom ddrafftio a gorfodi Cod Fideo-Ar-alw, sy'n debyg i'r Cod Darlledu. Bydd yn cynnwys y gwasanaethau 'tebyg i deledu' mwyaf, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dod o dan awdurdodaeth y DU ar hyn o bryd, sy'n golygu y bydd y gwasanaethau hyn yn ddarostyngedig i set debyg o reolau i deledu sy'n cael ei ddarlledu.

4.24 Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau fideo-ar-alw i sicrhau bod eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl ag anableddau. Bydd hyn yn golygu bod y gofynion statudol presennol ar gyfer darlledwyr llinol sy'n gofyn am ddarpariaeth isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, yn cael eu cyfateb ar y gwasanaethau ar-alw mwyaf.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.25 Er bod darlledwyr llinol yn destun rheoleiddio rhaglenni ers degawdau lawer, bydd cyflwyno Cod fideo-ar-alw cynhwysfawr a gofynion hygyrchedd yn cynrychioli newid sylweddol i lawer o ddarparwyr fideo-ar-alw yn y gorffennol, yn ddarostyngedig i rwymedigaethau mwy cyfyngedig yn unig. Ar ôl i'r Bil ddod i rym, felly, rydym yn bwriadu cynnal trafodaethau bwrdd crwn â rhanddeiliaid allweddol ynghylch ein cynlluniau a'r rhwymedigaethau newydd.

4.26 Yn fuan ar ôl y Cydsyniad Brenhinol, rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU ofyn yn ffurfiol am adroddiad gan Ofcom ar gyflwr y farchnad fideo-ar-alw yn y DU. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adroddiad hwn wrth benderfynu pa wasanaethau fydd yn cael eu dynodi'n wasanaethau 'Haen 1' (hynny yw, y rheini sy'n

ddarostyngedig i’r Cod fideo-ar-alw newydd a’r gofynion hygyrchedd newydd). Rydym yn disgwyl gwneud ceisiadau am wybodaeth i ddarparwyr perthnasol fel sail i’r adroddiad hwn, gan gyflwyno ein gwaith i’r Ysgrifennydd Gwladol tua diwedd 2024.


4.27 Eleni, byddwn hefyd yn dechrau gweithio ar ein Cod Fideo ar-alw drafft a’r canllawiau cysylltiedig, gyda’r dogfennau terfynol i ddod i rym yn 2025 ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd gan ddarparwyr Haen 1 wedyn gyfnod ychwanegol o 12 mis ar ôl cyhoeddi’r Cod (neu eu dynodi’n wasanaeth Haen 1, pa un bynnag yw’r hwyraf) cyn y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio’n llawn. Rydym yn cynnig defnyddio’r cyfnod hwn i ymgynghori ar weithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion a’u datrys.

4.28 Mae’r Bil hefyd yn mynnu bod Ofcom yn adolygu’r mesurau diogelu cynulleidfaoedd sy’n cael eu rhoi ar waith gan ddarparwyr fideo-ar-alw i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaethau presennol i ddiogelu cynulleidfaoedd sydd wedi’u gosod ar bob gwasanaeth fideo-ar-alw, yn ogystal â'r gofynion newydd a fydd yn berthnasol i wasanaethau Haen 1. Rydym yn disgwyl dechrau adolygiad cyffredinol o’r mesurau diogelu cynulleidfaoedd sy’n cael eu defnyddio yn fuan ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

4.29 O ran y gofynion hygyrchedd newydd, rydym yn disgwyl ymgynghori ar God Hygyrchedd Fideo-ar-alw newydd tua dechrau 2025. Bydd y cwotâu hygyrchedd (ar gyfer isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion) a nodir yn y Bil yn dod i rym yn nes ymlaen, sy’n debygol o fod tua chanol 2027. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl ymgynghori ar gyflwyno cwotâu gwasanaethau mynediad interim sy’n debygol o fod yn berthnasol o 2026 ymlaen, ynghyd â gofynion sy’n ymwneud â rhoi gwybod i Ofcom am faterion sy’n ymwneud â hygyrchedd a darparu gwybodaeth i bobl anabl.

# Rhan 5: Rheoleiddio Gwasanaethau Radio

## Amserlen ar gyfer gweithredu




## Crynodeb o’r newidiadau

4.30 Mae’r rhan hon o’r Bil yn dileu nifer o ddyletswyddau rheoleiddio hirsefydlog sy’n berthnasol i wasanaethau radio masnachol FM ac AM trwyddedig a gwasanaethau amlblecs radio cenedlaethol a lleol. Yn benodol, i adlewyrchu’r amrywiaeth eang o wasanaethau sydd ar gael i wrandawyr erbyn hyn, ni fydd gofynion pellach ar

orsafoedd lleol sy’n ymwneud â ble maent yn gwneud eu rhaglenni a pha gerddoriaeth maen nhw’n ei chwarae. Bydd rôl Ofcom o ran rheoleiddio pa orsafoedd radio sy’n cael eu cludo ar DAB hefyd yn dod i ben.

4.31 Mae’r Bil yn cadw’r gofynion i wasanaethau radio masnachol lleol ddarparu newyddion a gwybodaeth leol, gan gyflwyno gofyniad newydd ar gyfer newyddion ‘wedi’i gasglu’n lleol’. Mae hefyd yn cyflwyno gofynion newydd i drwyddedeion amlblecs gyhoeddi gwybodaeth am eu costau a rhoi gwybodaeth i Ofcom am y gorsafoedd radio y maent yn eu cludo.

4.32 Mae darpariaethau hefyd a fydd yn caniatáu i’r holl drwyddedau analog lleol gael eu hadnewyddu, ac i gyfundrefn trwyddedu digidol y DU gael ei hymestyn i orsafoedd radio sydd wedi’u lleoli dramor.


## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.33 Ar ôl i ni gael ein pwerau, byddwn yn ymgysylltu â thrwyddedeion cyn ymgynghori ar amodau i sicrhau bod newyddion a gwybodaeth leol yn cael eu darparu, gan gynnwys newyddion “wedi’i gasglu’n lleol”, ynghyd â chanllawiau ar y rhwymedigaethau hyn. Ein nod yw cyhoeddi’r ymgynghoriad hwn cyn gynted â phosibl ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, gyda datganiad a chanllawiau terfynol i ddilyn tua diwedd 2024. Byddwn wedyn yn ceisio diweddaru trwyddedau cyn gynted â phosibl yn 2025.

4.34 Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y gofynion newydd ar gyfer deiliaid trwyddedau amlblecs radio lleol a chenedlaethol ynghylch eu costau cludo a’r gwasanaethau maent yn eu darparu ar amserlen debyg. Felly, byddwn yn ceisio amrywio trwyddedau amlblecs i ddileu cyfeiriadau at wasanaethau rhaglenni a’r holl amodau cysylltiedig, ac i ychwanegu’r ddau amod newydd sy’n ofynnol gan y Bil, yn gynnar yn 2025.

# Rhan 6: Rheoleiddio Gwasanaethau Dethol Radio

## Amserlen ar gyfer gweithredu




## Crynodeb o ddyletswyddau newydd

4.35 Mae'r rhan hon o'r Bil yn ymwneud â llwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais, sy'n galluogi gwrandawyr i ddewis a chwarae gwasanaeth radio. Mae'r llwyfannau hyn, sydd ar gael drwy ddyfeisiau fel seinyddion clyfar a systemau adloniant yn y car, yn rhan gynyddol bwysig o'r farchnad sain. Mae'r Bil yn eu rheoleiddio am y tro cyntaf.

4.36 Yn yr un modd â gofynion rhan 2 ar gyfer llwyfannau teledu ar-alw, yr Ysgrifennydd Gwladol sydd i benderfynu pa lwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais i'w cynnwys yn y cwmpas. I wneud hynny, bydd angen iddynt benderfynu pa lwyfannau sy'n bwysig ar gyfer gwrando ar y radio a rhaid i'r ddau fod wedi cael cyngor gan Ofcom ac ymgynghori ynghylch ei chasgliadau.

4.37 Pan fydd cynulleidfaoedd yn gofyn am wasanaeth radio penodol, bydd rhaid i'r gwasanaethau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu dynodi sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw'n chwarae – er enghraifft, dylai "Play me Radio 4" neu "Play Classic FM" olygu y dylai'r gwasanaeth chwarae Radio 4 neu Classic FM – ac ni ddylent chwaith dorri ar draws unrhyw ffrwd radio â hysbysebion neu gynnwys arall. Bydd ganddynt hefyd rai rhwymedigaethau i'r gwasanaethau radio y maent yn eu cynnig – peidio â chodi tâl am eu darparu i gynulleidfaoedd a chaniatáu i wasanaethau radio ddewis y llwybr neu'r ap y maent yn ei ddefnyddio i gyrraedd cynulleidfaoedd.

4.38 Mae'r Bil hefyd yn nodi pa wasanaethau radio a allai elwa o'r rhwymedigaethau newydd hyn ar lwyfannau dynodedig sy'n cael eu hysgogi gan lais. I fod yn gymwys, bydd rhaid i wasanaethau radio'r rhyngrwyd chwarae'r un cynnwys ar yr un pryd â gwasanaeth radio trwyddedig (ac eithrio unrhyw hysbysebion, sy'n gallu bod yn wahanol). Gall gwasanaethau radio trwyddedig optio i mewn drwy roi gwybod i Ofcom.

## Y broses arfaethedig ar gyfer gweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

4.39 Ein cam cyntaf wrth roi'r gyfundrefn ar waith fydd pennu'r egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch pa lwyfannau y dylid eu dynodi. Byddwn yn ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar y llwyfannau sy'n cael eu hysgogi gan lais nad oes gennym gysylltiadau rheoleiddio â nhw'n barod, ac rydym yn disgwyl casglu data gan randdeiliaid i gefnogi'r gwaith hwn yn gynnar yn y broses.

4.40 Rydym yn bwriadu ymgynghori tua diwedd y flwyddyn ar ein dull gweithredu arfaethedig, gyda datganiad ac argymhellion terfynol i ddilyn yn gynnar yn 2025. Mae gweithredu'r rhan hon o'r Bil wedyn yn dibynnu ar benderfyniad dynodiad yr Ysgrifennydd Gwladol, ac ar ôl hynny byddwn yn cyhoeddi rhestr derfynol o lwyfannau sy'n cael eu rheoleiddio.

4.41 Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu ein bod yn cynhyrchu Cod Ymarfer a fydd yn nodi ein disgwyliadau ar lwyfannau dynodedig a gwasanaethau radio sydd wedi optio i mewn i'r gyfundrefn. Bydd y Cod Ymarfer, ymysg pethau eraill, yn egluro'r camau y gall llwyfannau eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, yn ogystal ag egluro'r gofynion technegol a gofynion eraill a fydd yn berthnasol i wasanaethau radio'r rhyngrwyd. Rydym yn bwriadu lansio ymgynghoriad ddrafft o'r cod drafft tua diwedd 2025, ynghyd ag ymgynghoriad ddrafft o'r canllawiau gorfodi. Rydym yn disgwyl cyhoeddi fersiynau terfynol y dogfennau hyn yn 2026.

4.42 Byddwn yn datblygu proses hysbysu ar gyfer gwasanaethau radio'r rhyngrwyd sy'n dymuno optio i mewn gan obeithio ei chyhoeddi yn 2025, ac ar yr adeg honno dylai gwasanaethau fod yn barod i gyflwyno eu hysbysiadau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi rhestr gychwynnol o wasanaethau hysbysedig yn 2026, pan fydd ein codau newydd hefyd yn dod i rym.